

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

**DYDD IAU, 25<sup>ain</sup> MEHEFIN, 2015 am 10.30.**

**Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)**

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 23 Mehefin 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 Datganiad Buddiant:**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL RHONDDA CYNON TAF FFLATIAU  
DRAFFT: CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR GYFER  
ADDASU AC ADEILADU NEWYDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal ar Fflatiau Drafft: Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Addasu ac Adeiladu o'r Newydd a cheisio cymeradwyaeth aelodau i weithredu fersiwn terfynol y ddogfen

**3 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL RHONDDA CYNON TAF Canllawiau Cynllunio Atodol: Cyflogaeth a Sgiliau (Drafft).**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ynghylch Cyflogaeth a Sgiliau a gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu'r fersiwn terfynol o'r ddogfen.

**Tudalennau 47- 62**

**4 CYNLLUN CYTUNDEB DINAS**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y gwaith diweddar i ddenu cynllun Cytundeb Dinas, ynghyd â chais i benderfynu p'un ai fod yn rhan o gynllun ffurfiol arfaethedig mewn perthynas â Chytundeb Dinas.

**Tudalennau 63- 66**

**5 DATGANIAD CYDGOMISIYNU AR GYFER GWASANAETHAU I BOBL HŶN 2015-2025.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno'r fersiwn drafft o Ddatganiad Cydgomisiynu ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Hŷn 2015-2025, ynghyd â chais am sêl bendith Aelodau i swyddogion i gynnal cyfnod o ymgysylltu â'r cyhoedd ac â rhan-ddeiliaid.

**Tudalennau 67 - 146**

**6 DYRANNU CRONFA GOFAL CANOLRADDOL YNG NGHWM TAF: 2015/16.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r Gronfa Gofal Canolraddol a'i dyraniad yng Nghwm Taf ar gyfer 2015/16.

**Tudalennau 147- 158**

**7 CYNLLUN Y GYMRAEG – ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r Gymraeg, cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

**Tudalennau 159-184**

**8 CYNLLUN ARFAETHEDIG AR GYFER DARPARIAETH UNED ATGYFEIRIO DISGYBLION CYFNOD ALLWEDDOL 3/4 AR GYFER POBL IFAINC A CHANDDYN NHW ANGHENION CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL AC YMDDYGIAD SYLWEDDOL.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi i Aelodau wybodaeth i'w thrafod mewn perthynas â'r darpariaethau uned atgyfeirio disgyblion Cyfnod Allweddol 3/4 yn yr Awdurdod Lleol yn ogystal â rhoi gwybodaeth am y gwelliannau diweddar yng Nghanolfan Addysg Tŷ Gwyn.

**Tudalennau 185- 192**

**9 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN Y CYMER, PORTH RHONDDA.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n amlinellu'r cynigion ar gyfer creu Ysgol Gynradd Pob Oed ar gyfer y Cymer, gan fuddsoddi £2 filiwn mewn gwella adeiladau a chyfleusterau presennol yr ysgol.

**Tudalennau 193 - 196**

**10 PENDERFYNIAD BWRDD GWASANAETHAU LLEOL AR WEITHIO MEWN PARTNERIAETH YN ÔL ARDALOEDD.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi arolwg ar benderfyniad diweddar Bwrdd Gwasanaethau Lleol Rhondda Cynon Taf, yn glŷn â chymhwysu dull gweithio mewn partneriaeth ar sail ardaloedd.

**Tudalennau 197- 202**

**11 ADOLYGU CYNLLUN YMDDEOL YN GYNNAR GWIRFODDOL A CHYNLLUN DISWYDDO GWIRFODDOL Y CYNGOR.**

Derbyn Adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol sy'n ceisio barn y Cabinet yn glŷn ag a ddylid diwygio Cynllun Ymddeol yn Gynnar Gwirfoddol presennol (VER) a Chynllun Diswyddo Gwirfoddol (VR) y Cyngor, yng ngoleuni'r materion ariannol cyfredol sy'n wynebu'r Cyngor.

**Tudalennau 203-208**

**12 MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd fel y mae'r Cadeirydd yn gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Iwan Jones', written in a cursive style.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**